

Nant Fawr llwybr
Llwybr amgen
Dim llwybr
Troed



Hanes Y NANT FAWR

Dyluniwyd y daflen hon i ddarparu gwybodaeth am Hanes Coridor Nant Fawr yng Nghaerdydd.

Os ewch am dro ar hyd ochr yr Afon, fe welwch lawer o adeiladau a nodweddion diddorol sy'n rhoi ciliwiau i chi am orffenol Caerdydd. Cliciwch ar yr eiconau am fwy o wybodaeth...

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chyflleoedd eraill i fwynhau'r ardal o gefn gwlad sydd ar garreg eich drws, cysylltwch â Thim Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3186 / 73719 / 73249
e-bost: cefnngwlad@caerdydd.gov.uk
Gwefannau: www.caerdydd.gov.uk/cefnngwlad
www.caerdydd.gov.uk/bloamrywlaeth
www.outdoorcardiff.com

Parc Cefn Onn

Arhosfan Cefn Onn

Coed y Felin

Cronfa Dŵr Llanisien

Llandennis Oval

Ffermydd Dolydd Nant Fawr

Llyn y Rhath

Mynwent yr Iddewon

Cofeb Scott

Parc y Rhath

Y Pontydd dros Nant y Rhath

Mynwent Cathays

Eglwys Sant Andras

Melin y Rhath

Gerddi Waterloo

Eglwys Santes Margaret



Y Nant Fawr

Ar un adeg, roedd Nant Fawr yn llifo dros ardal fawr o dir. Pan godwyd Twnnel Rheilffordd Caerffili a'r rheilffordd yn Llysfaen cafodd ei lleihau i fod yn nant fechan.

Mae'r llwybr y mae'n ei dilyn i ganol y ddinas yn parhau i fod yn goridor o lesni y gall pobl ei fwynhau. Erbyn hyn mae'n cynnwys casgliad amrywiol o fannau agored ac mae cyfoeth o hanes ynghudd ynddi.

Prif Fap





Parc Cefn Onn

Parc coetir Edwardaidd yw Parc Cefn Onn, ar gyrion gogledd Caerdydd. Prif nodwedd y parc bach anffurfiol yw'r coed a'r llwyni addurnol sydd wedi'u plannu yno, yn enwedig rhai enghreifftiau gwych o goed conwydd, rhododendrons ac asaleas.

Yn wreiddiol, gardd a oedd yn eiddo i Ernest Albert Prosser ac a ddatblygwyd ganddo yn gynnar yr ugeinfed ganrif yw hanner gogleddol y parc - 'The Dell'. Roedd Prosser hefyd yn Rheolwr Cyffredinol Cwmnïau Rheilffordd Bro Taf, Caerdydd a Rhymni. Y bwriad oedd i'r ardd fod yn rhan o ystâd ehangach a oedd yn cynnwys tŷ, ond yn anffodus bu farw Prosser a'i unig fab cyn gallu gwireddu'r freuddwyd.

Ym 1944 llwyddodd Cyngor Caerdydd i gaffael y rhan honno o'r ardd ynghyd â gweddill yr ystâd, a oedd yn cynnwys y coetir i'r de a'r cwrs golff a'r tir amaethyddol cyfagos. Plannwyd coetir y de fel gardd goed addurnol yn ystod y 1940au hwyr a'r 1950au gan greu'r parc sy'n bodoli heddiw. Ceir llefydd parcio, toiledau a rhwydwaith da o lwybrau ar y safle, ac mae gwaith ar y gweill i adfer y gerddi hanesyddol gyda chymorth y grŵp sydd newydd ei ffurfio, Cyfeillion Parc Cefn Onn.

Mae'r parc wedi'i restru'n Radd II ar y Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.

Prif Fap

Arhosfan Cefn Onn

Ynghudd mewn cwm annaturiol, yn gyfagos â Pharch Cefn Onn, ceir Arhosfan Cefn Onn gynt. Gerllaw, ceir mynedfa'r twnnel milltir o hyd, y byddai'r trenau'n mynd drwyddo o Gaerdydd i Gaerffili. Byddai'r lein yn brysur iawn ar un adeg. Defnyddir 'arhosfan' yn y cyd-destun hwn i olygu gorsaf reilffordd fechan, ag ond ychydig o gyfleusterau neu heb gyfleusterau o gwbl, a'r platfformau ond yn ddigon hir i gynnwys dau gerbyd.

Agorwyd Arhosfan Cefn Onn ym 1910 i wasanaethu Clwb Golff Llanisien a oedd yn rhentu ei dir ar brydles gan E. A. Prosser. Roedd hefyd yn cynnig ffordd ddefnyddiol i Prosser gludo deunyddiau er mwyn creu ei ardd yn y 'Dell', ac am amryw o flynyddoedd dyma oedd y brif ffordd i'r cyhoedd gael mynediad i Barc Cefn Onn. Caewyd yr orsaf ym 1986 gan mai ond dau o bobl oedd yn defnyddio'r arhosfan! Mae gorsaf Llysfaen a Thornhill bellach, 500m i'r gogledd, bellach wedi cymryd ei le. Er bod yr hen arhosfan yn dal i fodoli, ac y gellir ei gweld o'r platfform newydd, mae natur yn ei hawlio'n ôl yn raddol, fel y gwelir yn y llun.





Cronfa Ddŵr ac Argae Llanisien

Pan dderbyniodd Corfforaeth Caerdydd gyfrifoldeb am gyflenwad dŵr cynyddol y dref ym 1878, gwnaethant gomisiynu arolwg gan eu peiriannydd eu hunain, John Avery Williams, er mwyn canfod cyflenwad addas a digonol o ddŵr i'r dref. O ganlyniad i'r arolwg, clustnodwyd pedwar safle, a Llanisien oedd y cyntaf ohonynt i gael ei adeiladu ym 1884. Defnyddiwyd Cronfa Ddŵr Llanisien fel un o'r prif gyflenwadau o ddŵr yfed tra'r oedd y tair cronfa ddŵr arall yn cael eu hadeiladu yng nghwm Taf.

Trosglwyddwyd y gronfa i Ddŵr Cymru ym 1973 pan ffurfiwyd Awdurdod Dŵr Cymru, a bu'n cyflenwi dŵr hyd canol y 1990au.

Mae Argae Llanisien wedi'i restru'n Radd II gan Cadw, ac roedd yn rhan hollbwysig o'r system cyflenwi dŵr i Gaerdydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae Cronfa Ddŵr Llanisien yn cynrychioli cynllun peirianeg sifil graddfa fawr sydd fwy neu lai wedi'i gadw yn ei gyflwr gwreiddiol hyd heddiw.

Coed y Felin

Defnyddiwyd Nant Fawr i bweru'r felin ŷd a elwid yn Felin Llanisien, ac o'r felin honno y tarddodd yr enw Coed-y-Felin.

Cafwyd y cofnod cyntaf o Goed-y-Felin cyn 1762 ar fraslun ymysg dogfennau'r teulu Homfray a ddangosai Felin Llanisien. Cafwyd llifogydd yn yr adeilad yn gynnar yn y 1960au a barodd iddo fod yn annrhigiadwy, ac yn fuan wedyn dechreuodd ddadfeilio. Gellir gweld safle Melin Llanisien hyd heddiw.

Ar hyd y blynyddoedd, byddai maint Llyn y Felin gerllaw'n amrywio, ac ar ryw bryd daeth i fod yn llyn addurnol yng ngardd Y Berllan, ac roedd yn dal i fod yn nodwedd yn yr ardd yn y 1960au. Caiff y coetiroedd bellach eu rheoli gan Gyfeillion Coed y Felin, mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd.



Ffermydd Caeau Nant Fawr

Tua chanrif a hanner yn ôl, cyn adeiladu'r cronfeydd dŵr a llinell reilffordd Rhymni, yr oedd pedair fferm a chanddynt gaeau a choedwigoedd ochr yn ochr â'r rhan hon o Nant Fawr. Enwau'r ffermydd oedd Rhydypennau, Rhydyblewyn, Fidlas a Chelyn. Byddai'r olygfa wedi bod yn wledig iawn. Dim ond ychydig o bobl oedd yn byw ym mhlwyf Llanisien (cyn lleied â 418 yng nghyfrifiad 1841) a'r trigolion hynny'n gweithio ym myd amaeth. Cynhaliai Fferm Celyn (fel y gwelir isod) 17 o bobl; y ffermwr, ei wraig, chwech o blant, chwech o weision, un llafurwr amaethyddol a dau o weithwyr eraill.

Ni ledodd yr ardal drefol i feddiannu'r ffermydd hyn tan yr ymgyrch fawr i godi tai ar ôl y rhyfel yn y 1960au. Cafodd Fferm Celyn ei dymchwel ym 1959, ac erbyn hyn, dim ond ffermdy Rhydyblewyn sy'n dal i sefyll. Mae wedi'i lleoli ar ben Blackoak Road.



Celyn (Holly) Farm, pictured above, was demolished in 1959, and was situated where Cardiff High School is today.

Oval Llandennis

Yn gynnar yn y 6ed ganrif, arweiniodd Teilo dwr o fynachod cenhadol o'u mynachdy ger Henffordd a sefydlu llan (eglwys) ar lannau Afon Taf yn y fan a elwir bellach yn Llandaf. Yn ddiweddarach, anfonwyd mynachod eraill o'r fan honno i sefydlu eglwysi newydd. Roedd Isan ymysg y rhain; dewisodd fan i sefydlu ei eglwys, ac o'i enw ef y tarddodd yr enw Llan Isan - Llanisien bellach. Roedd y ffynnon a'r pwll bychan yn Yr Oval yn ffynhonnell bwysig o ddŵr i'r gymuned hon, yr oedd eu gweithgarwch yn cynnwys ffermio ac addysgu, yn ogystal â rhoi cyfarwyddyd crefyddol a pherfformio sacramentau bedyddio a chladdu.

Roedd gan Isan hefyd enw Lladin, sef Dionysius, ac mae'n debygol mai o lygriad o'r enw hwnnw y tarddodd yr enw Llan Dennis, a thrwy hynny Oval Llandennis. Am flynyddoedd lawer roedd pobl yn tybio mai ffynnon iachaol oedd y pwll, yn enwedig ar gyfer cyflyrau'r llygad a'r llwg. Ym map Arolwg Ordians 1920, fe'i gelwir yn 'Ffynnon Llandennis' (Ffynnon Eglwys Dennis) Ceir tomen yno sydd bellach wedi'i gorchuddio â choed, ac mae'n bosibl mai dyma oedd safle'r hen gladdfa.

Prif Fap



Mynwent Iddewig Highfield

Mae'r porth i'r fynwent a'r waliau bob ochr iddo wedi'u rhestru'n Radd II oherwydd y diddordeb hanesyddol a chymdeithasol ynddynt fel porth nodedig i fynwent Iddewig gynnar, sy'n un o'r enghreifftiau prin iawn yng Nghymru o fynwent o'r fath.

Cyn i 2il Ardalydd Bute gyfrannu'r tir ar gyfer Mynwent Highfield ym 1841, byddai'r Iddewon yn mynd â'u meirw i'w claddu ym Mryste. Roedd y fynwent newydd hon yn nodi dechreuad Cymuned Iddewig annibynnol yng Nghaerdydd.

Parc y Rhath

Parc y Rhath oedd y parc cyhoeddus cyntaf yng Nghaerdydd. Diben y syniad uchelgeisiol oedd darparu amrywiaeth eang o gyfleusterau hamdden, chwaraeon ac addysgiadol i breswylwyr dwyrain Caerdydd.

Cafodd y parc ei adeiladu gan William Harpur a'r planhigion ynddo eu plannu gan William Walter Pettigrew. Digwyddodd y prif waith adeiladu rhwng 1887 a 1894. Cafodd y tir ar gyfer Parc y Rhath ei gyfrannu'n wreiddiol gan Ardalydd Bute ym 1887, ac mae'r ymdeimlad o geinder yr oes Fictoria yn parhau yn y parc hyd heddiw.

Fe'i cydnabuwyd yn un o'r enghreifftiau gwyachaf o barciau ym Mhrydain o'r oes Fictoraidd hwyr, ac mae wedi'i restru'n Radd I ar y Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.

Mae Parc y Rhath ymhlith nifer cynyddol o safleoedd yng Nghaerdydd sydd wedi ennill Baner Werdd, yn gydnabyddiaeth o ansawdd uchel y cyfleusterau a'r ddarpariaeth yn y parc.

Prif Fap



Llyn y Rhath

Mae Llyn Parc y Rhath yn argae sydd wedi'i restru'n Radd II. Ffurfiwyd y Llyn ar dir fu gynt yn gors, hyd nes y cyfrannwyd y tir gan Ardalydd Bute i'r Ddinas ym 1887.

Mae'r llyn 30 erw yn ganolbwynt i Barc y Rhath, sydd bellach yn Ardal Gadwraeth, a lle ceir ymdeimlad o hyd o naws draddodiadol oes Fictoria.

Mae'r llyn hefyd yn gynefin pwysig i amrywiaeth eang o fywyd gwylt, gan ddarparu man diogel i adar sy'n treulio'r gaeaf ac yn nythu yno.



Cofeb Scott

Twr a chanddo gloc yw 'Cofeb y Capten Scott'. Fe'i dadorchuddiwyd ym 1915 er cof am fywydau'r Capten Scott a'i gyfeillion fu farw ar eu taith i'r Antartig ym 1910, ar ôl hwylio o borthladd Caerdydd yn yr S.S. Terra Nova i oresgyn Pegwn y De.

Mae'r cloddwr, a gyfrannwyd gan F.C. Bowering, allfudwr glo lleol, yn edrych fel goleudy a'r ceiliog gwynt am ei ben yn darlunio llongau o gyfnod taith ymchwil Scott.

Prif Fap




Y Pontydd dros Nant y Rhath

Mae Gerddi Botaneg Parc y Rhath yn cynnwys tair pont droed sydd wedi'u rhestru'n Radd II.

Cafodd y ddwy bont gyntaf o haearn bwrw, sydd wedi'u lleoli wrth y tŷ gwydr, a rhwng y tŷ gwydr a'r llyn, eu cynhyrchu gan y peirianwyr o Fryste, J. Lysaght Limited.

Mae'r drydedd bont droed ym mhen deheuol Llyn y Rhath. Mae'r bont Edwardaidd hon wedi'i rhestru am ei bod yn enghraifft gynnar o bont droed o goncrit cyfnerth.

Mae pob un o'r tair pont yn croesi Nant y Rhath sy'n llifo drwy'r parc.





Mynwent Cathays

Mynwent Cathays yw un o fynwentydd mwyaf a mwyaf trawiadol Prydain. Mae'n cynnwys miloedd o gofebion yn dyddio o 1859, a gosodwyd y gofeb gyntaf ar 10 Gorffennaf y flwyddyn honno. Bellach, rhydd y cofebion hyn gipolwg gwerthfawr o hanes Caerdydd.

Cafodd y capeli arddull gothig eu cwblhau ym 1859 ar gost o £5,200, ac ar yr olwg gyntaf maent yn edrych yn union yr un fath â'i gilydd. Fodd bynnag, os edrychwch yn agos fe welwch fod y capel ar y llaw dde yn fwy addurnedig. Y rheswm am hyn yw bod y capel hwnnw'n gysegredig, a'r capel arall heb ei gysegru. Oherwydd y gyfradd uchel o farwolaethau yn y bedwaredd ganrif a'r bymtheg, byddai'r capeli'n cael eu defnyddio'n helaeth yn ystod yr wythnos, ac yn aml ar benwythnosau hefyd. Ddydd Sadwrn 8 Chwefror 1896, rhestrwyd 16 o wasanaethau, yr oedd 10 ohonynt ar gyfer plant iau nag 8 oed.

Heddiw, mae cynllun a phlanhigion bytholwyrdd y fynwent yn parhau i gyfateb â'r gwreiddiol. Mae'r safle, ac iddo arwynebedd o 35 hectar bron, yn lle tawel braf i fynd am dro. Mae llwybr treftadaeth wedi cael ei greu er mwyn cyflwyno rhai o nodweddion mwyaf trawiadol y fynwent, gan eich tywys heibio cofebion a nodweddion ecolegol pwysig. Gellir lawrlwytho'r llyfryn arweiniol yma.

Mae Cyfeillion Mynwent Cathays yn elusen gofrestredig sy'n anelu i gadw a diogelu ffawna, fflora, seilwaith a chofebion ac adeiladau'r fynwent. Mae hefyd yn anelu i addysgu'r cyhoedd am hanes a threftadaeth y fynwent ac i hyrwyddo ei phwysigrwydd fel ardal gadwraeth.

Am wasanaethau profedigaeth, cysylltwch â Mynwent Thornhill a Chrematorium Caerdydd ar 029 2062 3294.

Eglwys Saint Andreas

Mae'r eglwys, a adeiladwyd ym 1897 mewn arddull Gothig goeth, yn sefyll dros Dir Hamdden y Rhath ac erbyn hyn wedi'i rhestru'n adeilad Gradd II. Mae porth yr adeilad yn efelychu porth gorllewinol Abaty Tyndyrn o'r drydedd ganrif ar ddeg, a'r ffenestr uwchben yn efelychu'r ffenestri yn Abaty Melrose, Yr Alban.

Enw gwreiddiol yr eglwys oedd Eglwys Bresbyteraidd Saesneg Parc y Rhath. Fe'i codwyd er mwyn darparu lle ar gyfer cynulleidfa gynyddol y Presbyteriaid yng Nghaerdydd, felly ni ystyriwyd bod y cynlluniau i greu digon o seddi ar gyfer 800-900 o bobl yn ormodol. Pan agorwyd yr eglwys ar 20 Mehefin 1900 roedd yn orlawn, a bu'n rhaid gwrthod mynediad i rai addolwyr hyd yn oed.

Ym 1970, unodd yr Eglwys Gynulleidfaol â'r Eglwys Bresbyteraidd er mwyn creu Eglwys Newydd Unedig Saint Andreas.

Prif Fap




Melin y Rhath

Mae rhan o'r hen felin ddŵr bellach wedi diflannu, ond gellir gweld adfeilion y gwaith carreg ar lan orllewinol y nant, tua 70 o lathenni i'r gogledd o bont Waterloo Road.

Yn y bymthegfed ganrif, byddai Melin y Rhath yn malu ŷd (grawn) ar gyfer Arglwydd y faenor leol a gyflenwai flawd i Gastell Caerdydd.

Cafodd y felin ei dymchwel ym 1897 ar ôl cael ei defnyddio am amryw o flynyddoedd.




Eglwys Santes Farged

Ym 1766, priododd John Stuart, (Ardalydd 1af Bute yn ddiweddarach) Charlotte Jane Windsor, yr aeres i dir y teulu Herbert yng Nghymru. Drwy'r briodas hon, llwyddodd i gaffael Castell Caerdydd a darnau helaeth o dir ar hyd a lled Morgannwg. Ym 1792, prynodd barsel o dir o'r enw Ystâd y Brodyr, a oedd yn cynnwys bywoliaeth Plwyf y Rhath, a phan fu fawr ei wraig Charlotte died ym 1800, adeiladodd gapel claddu neu feddrod yno, gyda lle i 48 o eirch. Roedd yn bwriadu defnyddio'r lle fel man gorffwys ei deulu am genedlaethau i ddod.

Prif Fap


Nesaf



Eglwys Santes Farged

Wedi i 2il Ardalydd Bute agor doc cyntaf Caerdydd ym 1839, ac ar ôl ffurfio'r gamlas a'r rheilffordd, cynyddodd poblogaeth Caerdydd yn aruthrol. O ganlyniad i hyn, nid oedd yr eglwys fechan yn ddigon mawr i ddiwallu anghenion y bobl, ac felly cafodd pob rhan o'r eglwys, ar wahân i'r beddrod ei ddymchwel ym 1867. Ym 1868, ac yntau'n 21ain oed ac yn Babydd, comisiynodd 3ydd Marcwis Bute y pensaer John Pritchard, adferwr Eglwys Gadeiriol Llandaf, i godi eglwys Gothig o'r radd flaenaf yn lle'r eglwys wreiddiol. Cafwyd llawer o ganmoliaeth pan agorwyd yr eglwys newydd ym 1870, er nad oedd yn cynnwys y twr a'r meindwr yng nghynllun Pritchard.

Mae'r adeilad wedi'i restru'n radd I oherwydd dyluniad coeth a manwl y rhannau mewnol a'r arwyddocâd cymdeithasol sydd i feddrod teulu'r Bute; yr unig feddrod o'i fath yng Nghymru.





Gerddi Waterloo a Gerddi Melin y Rhath

Mae'r ddau barc Fictoraidd wedi'u lleoli mewn Ardal Gadwraeth sy'n ceisio cadw cymeriad arbennig y parciau a'r tai Edwardaidd o'u hamgylch. Mae Nant y Rhath yn llifo drwy'r ddwy ardd ac wedi'i dynodi'n Safle Pwysig er Cadwraeth Natur, oherwydd ei phwysigrwydd i fyfyr natur.

Agorwyd y parciau ar ddechrau'r 20fed ganrif wedi i Gorfforaeth Caerdydd eu derbyn yn rhodd gan Arglwydd Tredegar.

Ceir gardd rosod a gardd addurnol yng Ngerddi Waterloo, ac mae'r naill a'r llall yn llefydd braf iawn i fynd am dro hamddenol.

Mae'r gerddi wedi'u rhestru ar y cyd fel Gradd II ar y Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.